# Agenda

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | **Cyfarfod Bwrdd CNC – Cyfarfod Cyhoeddus** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Dydd Iau 22 Mai 2025** |
| **Amser y cyfarfod:** | **13:05 – 16:00** |

| Amser | Eitem |
|---|---|
| **Materion Rhagarweiniol** | |
| 13:05<br>**(5 munud)** | **Eitem 1. Agor y cyfarfod**<br>• Croeso<br>• Datganiad Buddiannau<br>• Egluro trefn y cyfarfod<br><br>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)<br><br>**Crynodeb: NODI unrhyw ddatganiadau o fuddiannau** |
| 13:10<br>**(5 munud)** | **Eitem 2. Adolygu Cofnodion a'r Log Camau Gweithredu**<br>**2A. Adolygu Cofnodion Cyfarfod Cyhoeddus 20 Mawrth**<br>**2B. Adolygu'r Log Camau Gweithredu Cyhoeddus**<br><br>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)<br><br>**Crynodeb: CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod blaenorol a'r Log Camau Gweithredu** |
| **Cefndir** | |
| 13:15<br>**(10 munud)** | **Eitem 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd**<br>Noddwr a Chyflwynydd: Syr David Henshaw (Cadeirydd)<br><br>**Crynodeb: NODI diweddariad Cadeirydd y Bwrdd** |

| | |
|---|---|
| **13:25** **(10 munud)** | **Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr**<br>Noddwr a Chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro<br><br>**Crynodeb: NODI'r sefyllfa bresennol a diweddaru'r Bwrdd ar weithgareddau allweddol**<br><br>**Cyfeirnod y papur: 25-03-B09** |

## Llywodraethu, Risg a Sicrwydd

**13:35**
**(20 munud)**

### Eitem 5. Adroddiadau Diweddaru y Pwyllgorau a'r Fforymau

Noddwyr a Chyflwynwyr: Cadeiryddion Pwyllgorau

- Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg - 16 Mai (Ar lafar)
- Pwyllgor Cynghori ar Dystiolaeth - 7 May (Ar lafar)
- Pwyllgor Cyllid - 1 Mai

**Cyfeirnod y papur: 25-05-B10**

- Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd - 17 Ebrill

**Cyfeirnod y papur: 25-05-B11**

- Pwyllgor Ystad Tir
- Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid 15 Mai (Ar lafar)
- Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig - 8 Mai Berfol Ymweliad â Safle (Ar lafar)

- Fforwm Rheoli Tir Cymru (Ar lafar)
- Fforwm Pysgodfeydd Cymru (Ar lafar)
- Fforwm Rheoli Dŵr Cymru (Ar lafar)
- Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru (Ar lafar)
- Grŵp Galluogi'r Sector Amgylcheddol

**Cyfeirnod y papur: 25-05-B12**

**Crynodeb: NODI'r diweddariadau gan Bwyllgorau'r Bwrdd a Fforymau CNC, mewnol ac allanol, a chyfarfodydd a gynhaliwyd**

## Cyflawni ein Cynllun

**13:55**
**(20 munud)**

### Eitem 6. Adroddiad Perfformiad Cyllid

Noddwr: Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

Cyflwynydd: Rob Bell, Pennaeth Cyllid

**Crynodeb: CYMERADWYO'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf**

| | |
|---|---|
| | **Cyfeirnod y papur: 25-05-B13** |
| **14:15**<br>**(60 munud)** | **Eitem 7. Cyflwyniad Lle**<br>Noddwr: Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau<br>Cyflwynydd: Huwel Manley, Pennaeth Gweithrediadau De-orllewin Cymru<br><br>**Crynodeb: Darparu trosolwg o weithgareddau allweddol yn rhanbarth y De Orllewin**<br><br>**Cyfeirnod y papur: 25-05-B14** |
| **15:15**<br>**(5 munud)** | **Eitem 8. UNRHYW FATER ARALL** |
| **15:20**<br>**(10 munud)** | **Eitem 9. Sut wnaethom ni yn y cyfarfod hwn?**<br>Noddwr: Syr David Henshaw, Cadeirydd<br><br>**Crynodeb: Adolygiad o'r cyfarfod** |
| **15:30** | **Diwedd y cyfarfod** |
| **15:40**<br>**(20 munud)** | **Sesiwn Holi ac Ateb i'r Cyhoedd** |
| **16:00** | **Diwedd y Cyfarfod Cyhoeddus** |

# Cofnodion heb eu cadarnhau

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Cyfarfod Bwrdd CNC |
| **Lleoliad:** | Maes y Ffynnon a Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 20 Mawrth 2025 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Syr David Henshaw<br>Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro<br>Geraint Davies<br>Dr Pete Fox<br>Yr Athro Calvin Jones<br>Lesley Jones<br>Yr Athro Rhys Jones<br>Mark McKenna<br>Helen Pittaway<br>Dr Rosie Plummer |
| **Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol:** | Prys Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth a Datblygu Corfforaethol<br>Sarah Jennings, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol<br>Rachael Cunningham, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol<br>Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau<br>Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu |
| **Hefyd yn bresennol:** | Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd (pob eitem)<br>Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol (pob eitem)<br><br>Nadia De'Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu – Eitem 6<br>Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau – Eitem 6<br>Mary Lewis, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol – Eitem 6<br>Ruth Jenkins, Pennaeth Cynllunio Datblygu a Morol – Eitem 6<br>Mark Collins, Rheolwr Tîm Cyllid Busnes 2 – Eitem 7 |

| | |
|---|---|
| | Dave Liddy, Prif Ymgynghorydd Arbenigol, Cynllunio Hamdden Ystadau – Eitem 10 |
| **Sylwedyddion CNC yn bresennol:** | Neb |
| **Sylwedyddion o'r cyhoedd yn bresennol:** | Aelodau ychwanegol o'r cyhoedd |
| **Ymddiheuriadau:** | Yr Athro Steve Ormerod, Dirprwy Gadeirydd<br>Kath Palmer |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Natalie Williams, Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd ac Arweinydd Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd<br>Rhiannon Spencer, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd<br>Andrea Bennett, Tîm Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd |

## Eitem 1. Dechrau'r cyfarfod

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw, Cadeirydd

1. Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod ac eglurodd sut y byddai'r cyfarfod yn cael ei gynnal. Nodwyd datganiadau o fuddiant ac ymddiheuriadau fel yr uchod.

## Eitem 2. Adolygu'r cofnodion a chofnod y camau gweithredu

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw, Cadeirydd

### Eitem 2A. Adolygu cofnodion o gyfarfod 23 Ionawr

2. Adolygwyd a chytunwyd ar gofnodion cyfarfod cyhoeddus y Bwrdd ar 23 Ionawr.

### Eitem 2B. Adolygu'r cofnod o gamau gweithredu cyhoeddus

3. Adolygwyd a nodwyd y cofnod o gamau gweithredu.

## Eitem 3. Yr wybodaeth ddiweddaraf gan y Cadeirydd

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw, Cadeirydd

4. Nododd y Cadeirydd mai dyma oedd cyfarfod olaf y Bwrdd i Rosie Plummer a Geraint Davies. Roedd hysbysiad hefyd wedi dod gan Clare Pillman y byddai hi'n ymddeol o'i rôl fel y Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu. Mynegodd y Bwrdd eu diolch i Clare, Geraint a Rosie am eu holl gyfraniadau i CNC.

5. Roedd y Cadeirydd, y Prif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol wedi mynychu'r Pwyllgor Newid Hinsawdd,

Amgylchedd a Seilwaith  i roi tystiolaeth. Roedd y materion cyfredol a'r heriau gyda'r cynnydd mewn cyllid wedi cael eu trafod.

## Eitem 4. Adroddiad gan y Prif Weithredwr

Noddwr a chyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro

6. Rhoddodd y Prif Weithredwr Dros Dro ddiweddariad ar eitemau yn ogystal â'r adroddiad ysgrifenedig. Cofnodwyd diolch i Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau, Pennaeth Rheoli Perygl Llifogydd a Digwyddiadau a Phennaeth Prosiectau Strategol, a oedd hefyd wedi cyflwyno i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith ar ddigwyddiadau storm. Gofynnwyd i CNC hefyd ymddangos gerbron y Pwyllgor Materion Cymreig ddechrau mis Ebrill i roi tystiolaeth i'r ymchwiliad i etifeddiaeth ddiwydiannol a thir halogedig.

7. Roedd y Prif Weithredwr Dros Dro a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau yn cysylltu ag awdurdodau lleol a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn dilyn digwyddiadau storm 2024-25. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd gyda Thîm Gweithredol ac Arweinydd Rhondda Cynon Taf i wella'r gallu i wrthsefyll stormydd ac i gydweithio'n effeithiol.

8. Roedd y Prif Weithredwr Dros Dro hefyd yn cyfarfod yn chwarterol ag Archwilio Cymru, a oedd yn goruchwylio'r trefniadau monitro gwell gyda Llywodraeth Cymru (LlC). Roeddent hefyd â diddordeb yng ngwaith CNC ar y Parc Cenedlaethol newydd arfaethedig.

9. Roedd CNC yn gweithio'n agos gyda LlC, gan ganolbwyntio'n benodol ar ansawdd dŵr. Tynnwyd sylw at y Bil Mesurau Arbennig, Comisiwn John Cunliffe, a'r gwaith ar uwch-gynhadleddau'r Dirprwy Brif Weinidog ar ddŵr.

10. Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad, yn enwedig y crynodeb o gwynion a chanmoliaeth, a'r adran gohebiaeth, a llongyfarchodd y tîm TGCh am y sicrwydd o ran seiber. Croesawyd y lleoliadau Stiwardiaeth Tir, a gofynnwyd a fyddai lleoliadau'n cael eu defnyddio mewn meysydd eraill o'r sefydliad. Croesawyd y canllawiau awyr dywyll hefyd. Amlygwyd hefyd fod Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yn arwain gwaith i edrych ar fodel economi gymysg a oedd yn cynnwys defnyddio lleoliadau, secondiadau a mecanweithiau eraill i ddarparu adnoddau.

11. Cofnododd y Bwrdd eu diolch am y Gynhadledd Dystiolaeth ac amlinellwyd y canlyniadau allweddol ar gyfer tystiolaeth.

12. Ceisiwyd eglurder ynghylch beth oedd ystyr bod ag uchelgais i gyflawni yn adran 30 erbyn 30 yr adroddiad. Roedd CNC bob amser yn ymdrechu i fynd ymhellach na'r disgwyl ac amlinellwyd y gwaith o fewn Stiwardiaeth Tir i adolygu'r ystad. Byddai'n bwysig i CNC arwain y ffordd a chyflawni ei gylch gwaith wrth chwilio am gyfleoedd drwy'r mesurau cadwraeth effeithiol sy'n seiliedig ar ardaloedd. Gan fod CNC yn gofalu am 7% o'r tir yng Nghymru, roedd cyfle i gynnig tir ar gyfer 30 erbyn 30 a thuag at adfer natur.

## Eitem 5. Adroddiadau diweddaru’r pwyllgorau a’r fforymau

Noddwyr a chyflwynwyr: Cadeiryddion y pwyllgorau

13. Rhoddodd Helen Pittaway, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, yr wybodaeth ddiweddaraf i’r Bwrdd am y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 6 Chwefror a 5 Mawrth. Roedd llawer o’r eitemau hefyd wedi’u cyflwyno i’r Bwrdd ac yn cynnwys y cymeradwyaethau ariannol, yr Adroddiad Perfformiad Ariannol, a Chyllideb a Chynllun Busnes 2025-26. Yn ogystal â’r rhain, cafwyd archwiliad manwl o Risg Strategol 05 – Methu â Chyflawni Sefydlogrwydd Ariannol, a diweddariadau ar reoli rhaglenni a phrosiectau, y Gwasanaeth Cymorth Rheoli Contractau ac CNC 2030.

14. Rhoddodd Pete Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod ar y cyd rhwng y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd a’r Pwyllgor Ystadau Tir a gynhaliwyd ar 11 Chwefror. Cafwyd dwy drafodaeth strategol ar Raglen Gyfalaf Llifogydd ac Ardaloedd Draenio Mewnol. Byddai cyfarfod ar y cyd pellach yn yr hydref. Roedd y model Ardaloedd Draenio Mewnol wedi cael ei drafod a dylid ei adolygu o ran ei berthnasedd. Gan mai mater deddfwriaethol oedd hwn, byddai Llywodraeth Cymru yn ganolog i’r trafodaethau ac argymhellwyd y dylid trafod Ardaloedd Draenio Mewnol eto mewn cyfarfod noddi sydd ar ddod.

15. Rhoddodd Mark McKenna, Cadeirydd y Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid, yr wybodaeth ddiweddaraf i’r Bwrdd am gyfarfod 19 Chwefror, gan gynnwys y risgiau a phroblemau cyfredol, y platfform cwsmeriaid, heriau recriwtio, a diogelwch ymwelwyr mewn rhaeadrau. Byddai ymweliad â’r safle yn cael ei drefnu ar gyfer cyfarfod mis Medi a byddai holl aelodau’r Bwrdd yn cael gwahoddiad iddo. Cymeradwyodd y pwyllgor yr Adroddiad Amrywiaeth a Chynhwysiant a’r Adroddiad Bwlch Cyflog. Diolchwyd i Rosie Plummer am ei chyfraniad.

16. Rhoddodd Rosie Plummer, Cadeirydd y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig, yr wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod y Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig a gynhaliwyd ar 13 Chwefror, a oedd yn cynnwys eitemau ar Brosiect Arddangoswr Teifi a 30 erbyn 30. Roedd y pwyllgor wedi mynegi pryderon ynghylch cyflymder ac adnoddau 30 erbyn 30 yn ogystal â bod targedau 30 erbyn 30 yn seiliedig ar agweddau rhifiadol ac nad oeddent yn ystyried meysydd fel cyflwr y safle. Roedd llythyr rhybuddio hefyd ynghylch cynnal a chadw ased llifogydd mewn Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a oedd wedi’i drosglwyddo i’r Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd i’w graffu.

17. Rhoddodd Geraint, Cadeirydd Fforwm Rheoli Tir Cymru, yr wybodaeth ddiweddaraf i’r Bwrdd am y cyfarfod ar 4 Mawrth. Roedd cyflwyniadau wedi bod gan Lywodraeth Cymru a’r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ar hawliau tramwy cyhoeddus, a mapio llwybrau, yn y drefn honno. Roedd y gwaith yn cynnig cyfleoedd ar gyfer meddwl cydgysylltiedig a allai fod yn hanfodol bwysig. Roedd arolwg pobl a natur hefyd a oedd yn canolbwyntio’n bennaf ar gyfnod COVID-19. Cadarnhawyd mai Lesley Jones oedd cadeirydd y fforwm bellach a nodwyd y negeseuon cadarnhaol gan yr aelodau ar werth y fforwm a’r cyfraniadau gan Geraint Davies a Rosie Plummer.

18. Rhoddodd Rhys Jones yr wybodaeth ddiweddaraf am is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru. Roedd y penderfyniad wedi'i wneud i brif ffrydio gwaith yr is-grŵp a dod â'r gwaith yn ôl i'r prif grŵp. Byddai cyfarfod olaf yn cael ei gynnal ym mis Ebrill, pan fyddai adroddiad ar reoli amaethyddiaeth yn cael ei drafod. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd prif Fforwm Rheoli Tir Cymru o ran bwydo i uwch-gynhadleddau'r Dirprwy Brif Weinidog.

19. Rhoddodd Lesley Jones yr wybodaeth ddiweddaraf am Fforwm y Sector Galluogi'r Amgylchedd. Nid oedd y grŵp wedi cyfarfod gan fod y tîm wedi cael ei effeithio gan yr Achos dros Newid. Byddai cyfeiriad y fforwm yn cael ei drafod gyda'r Prif Weithredwr Dros Dro.

## Eitem 6. Trafodaeth strategol: rheoleiddio mewn cyfnod o dwf

Cyflwynydd: Nadia De'Longhi, Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu; Martin Cox, Pennaeth Gweithrediadau; Mary Lewis, Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol; Ruth Jenkins, Pennaeth Cynllunio Datblygu a Morol

20. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu'r eitem. Gofynnwyd i'r Bwrdd drafod goblygiadau amgylchedd gweithredu newidiol CNC er mwyn cyflawni'r manteision a ragwelwyd yn y cynllun corfforaethol.

21. Rhoddodd Pennaeth Polisi Rheoli Adnoddau Naturiol yr wybodaeth ddiweddaraf am y pwysau presennol ar anghenion cymdeithasol ac amgylcheddol. Roedd y gwasanaethau rheoleiddio a chynghori o fewn CNC ar hyn o bryd yn teimlo'r pwysau i roi atebion i gwestiynau yr oedd y llywodraeth a'r cyhoedd yn eu ceisio. Cydnabuwyd y byddai penderfyniadau CNC ar newid hinsawdd o arwyddocâd cenedlaethol a byd-eang, a byddai'n ofynnol iddo ddefnyddio meysydd fel ynni adnewyddadwy i gyflawni ar newid hinsawdd. Roedd angen ystyried sut y byddai CNC yn ymateb a symud y tu hwnt i gyfaddawdau lleol er mwyn sicrhau na fyddai'r amgylchedd yn dioddef colledion. Gellid gwneud hyn yn strategol gan ddefnyddio offer rheoleiddio i fynd i'r afael â materion natur yn rhagweithiol, yn ogystal ag amgylcheddau.

22. Rhoddodd y Pennaeth Rheoleiddio a Thrwyddedu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am amser y twf. Roedd yn ofynnol i reoleiddwyr, fel CNC, weithredu fframwaith a osodwyd gan y llywodraeth. Rôl CNC oedd dylanwadu ar y llywodraeth ynghylch sut i wella a diwygio'r fframwaith, er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw faterion a gododd. Tynnwyd sylw at yr heriau sy'n gysylltiedig â diwygio hyn. Roedd yn bwysig bod gan CNC y gallu i ymgysylltu'n gynnar â datblygwyr i ddeall y problemau posibl a datblygu opsiynau dilyniant amgen a allai gydbwyso anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn well. Gallai gwell cyllid ac adnoddau helpu CNC i ymdrin â'r heriau a nodwyd, er mwyn symud ymlaen fel rheoleiddiwr.

23. Trafododd y Bwrdd sut y gallai CNC ddylanwadu ar y llywodraeth ar briodoldeb y fframwaith deddfwriaethol, lle roedd angen ei foderneiddio, a sut i gael ei ystyried yn alluogwr yn y fframwaith presennol. Roedd yn bwysig i CNC ddod yn rhan o'r broses a dechrau trafodaethau'n gynnar. Roedd CNC mewn sefyllfa anodd ac

roedd ganddyn nhw ddyletswydd i amgylchedd Cymru a Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

24. Trafodwyd cydbwysedd y buddsoddiad hefyd ac a ddylai CNC fuddsoddi mwy o arian yn y gwaith ymlaen llaw er mwyn gwneud penderfyniadau cyflymach. Holiwyd a oedd y gallu i ddefnyddio pwerau arbrofol wedi'i brofi, ac a allai CNC ymdrin â'r amserlen i newid y fframwaith pe gallem gael sefyllfa gryfach gan ddefnyddio dull rheoli addasol.

25. Roedd cyfleoedd yn bodoli i helpu CNC i ddylunio gwahanol ffyrdd o symud ymlaen. Awgrymwyd y gallai CNC symud tuag at ffordd o weithio sy'n seiliedig ar atebion, a allai helpu i wella ymgysylltiad cyhoeddus â rhanddeiliaid a chyrff eraill yn y sector cyhoeddus (Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus).

26. Holodd y Bwrdd beth fyddai ei angen i ddylanwadu ar newid yn y polisïau a dulliau gweithredu presennol, er mwyn cyrraedd y targedau byd-eang mewn meysydd fel adfer natur a lleihau llygredd er mwyn sicrhau ansawdd dŵr. Awgrymwyd bod y diwydiant ffermio yn bartner parod i symud ymlaen pe gallent fod yn rhan o'r broses.

27. Roedd perthynas CNC â chwsmeriaid yn bwysig ac awgrymwyd y gallai rhoi esboniad i gwsmeriaid pam yr oedd penderfyniadau'n cael eu gwneud wella maint y berthynas er mwyn adlewyrchu'r newid mewn amgylchiadau.

28. Trafododd y Bwrdd a oedd CNC yn gwneud gwahaniaeth gyda'r penderfyniadau a wnaed ganddo. Roedd gwybodaeth o fewn y maes fframwaith cynnyrch, gydag offer ar gael i helpu i gyflawni a chyflymu prosesau. CNC oedd y prif reoleiddiwr ar gyfer Cymru a byddai'n cynorthwyo eraill i weithio yn yr un ffordd. Tynnwyd sylw at gyllid a'r cyfyngiadau adnoddau presennol a chreodd hyn fwy o bwysau i wneud penderfyniadau'n gyflymach.

29. Roedd arian buddsoddi yn cael ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Deddf Seilwaith Cymru ac roedd y tîm rheoleiddio yn nodi'r defnydd gorau o'r offer sydd ar gael o fewn y Ddeddf. Trafododd y Bwrdd sut y byddent yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd cynnydd.

30. Croesawodd y Bwrdd y drafodaeth a chefnogodd y gwaith a wnaed gan y timau.

## Eitem 7. Adroddiad Perfformiad Cyllid

Cyflwynydd: Mark Collins, Rheolwr Tîm Cyllid Busnes 2

31. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol yr eitem. Rhoddodd Rheolwr Tîm Cyllid Busnes 2 yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a nododd y newid yn y rhagolwg diweddaraf, o £275.3 miliwn i £294.6 miliwn. Eglurwyd y rhesymau dros y cynnydd, yn ogystal â'r gwariant, a oedd £3.1 miliwn yn is na'r rhagolwg hyd yma ar gyfer y flwyddyn, a'r incwm, a oedd yn fras yn unol â'r proffil.

32. Roedd pryderon wedi bod ynghylch tanwariant, ac o ganlyniad roedd y Tîm Gweithredol wedi cynyddu'r gwariant ar raglenni i £1.6 miliwn. Nodwyd y cyfleoedd

o fewn y rhaglenni allweddol, gan gynnwys y defnydd posibl o danwariant o fewn cyllidebau llifogydd ac CNC 2030 ar gyfer meysydd eraill. Darparwyd diweddariadau pellach ar incwm pren, trosglwyddo i gyllideb IR35, trosglwyddo i gyllideb yr Achos dros Newid, a'r arbedion o reolaethau recriwtio.

33. Cofnododd y Bwrdd fod fformat yr adroddiad wedi bod yn glir ac yn hawdd ei ddeall. Holwyd am y term cronfeydd wrth gefn gan nad oedd gan CNC gronfeydd wrth gefn. Byddai term newydd yn cael ei ddefnyddio yn y dyfodol.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y newid yn y rhagolwg diweddaraf o £275.3 miliwn i swm a ragwelwyd o £294.6 miliwn.**

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y perfformiad ariannol hyd at ddiwedd mis Ionawr 2025.**

## Eitem 8. Diweddariad chwarterol ar Ddangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes

Cyflwynydd: Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro

34. Cyflwynodd y Prif Weithredwr Dros Dro yr eitem a rhoddodd ddiweddariad ar Ddangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes. Cydnabuwyd y gwaith a wnaed ar y dangosfwrdd gan dîm y Strategaeth Gorfforaethol ac roedd gofyniad bellach i brofi a gweithredu'r fformat newydd. Cafodd y datganiadau effaith a'r dangosyddion strategol eu cynnwys a byddent yn cael eu rhoi ar waith yn y flwyddyn ariannol nesaf.

35. Roedd y sefyllfa a adroddwyd ar gyfer Ch3 wedi'i diweddaru, gan gynnwys y sefyllfa a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn. Gwnaed gwaith ychwanegol drwy gydol y flwyddyn i alinio CNC a Llywodraeth Cymru, yn dilyn y newid yn y llywodraeth, mewn amrywiol feysydd gwaith.

36. Byddai pob cyfarwyddwr yn arwain amcan llesiant ac yn trafod ac yn adolygu'r perfformiad cyffredinol, gan gynnwys sut y gellid cyflawni'r amcanion llesiant ar y cyd. Byddai'r Bwrdd yn canolbwyntio ar y ffordd ymlaen, gan ganolbwyntio nid yn unig ar y camau i'w cymryd yn y cynllun busnes, ond hefyd ar y metrigau o fewn gweithgareddau busnes fel arfer i helpu CNC i gyflawni.

37. Tynnodd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu sylw at sgôr pob metrig, sef coch, oren neu wyrdd, ar gyfer Amcan Llesiant 1. Roedd cynnydd da wedi'i wneud ac roedd pump allan o'r wyth metrig wedi'u hadrodd fel rhai gwyrdd. Roedd gwaith yn parhau ar gyfer y metrigau a oedd wedi cael statws coch neu felyn a nodwyd bod y rhewi recriwtio a'r Achos dros Newid yn ei gwneud yn ofynnol i'r timau flaenoriaethu gwaith arall.

38. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol yr wybodaeth ddiweddaraf am Amcan Llesiant 2. Roedd nifer o swyddi gwag wedi bod yn y maes hwn, heb y gallu i recriwtio. Roedd y tîm yn gweithio ar sicrhau sefyllfa well yn y flwyddyn nesaf, yn dilyn codi'r rhewi ar recriwtio. Roedd gwaith adfer yn

mynd rhagddo ledled Cymru ar y tir a reolir gan CNC ac roedd cynnydd da i'w weld ar y safleoedd blaenoriaeth. Roedd y cynnydd ar y metrigau wedi lleihau yn y chwarter hwn, gyda saith allan o naw metrig yn cael statws melyn.

39. Roedd pryderon wedi'u codi mewn perthynas â dealltwriaeth o fanteision ymyriadau hinsawdd gyda llythrennedd hinsawdd. Cadarnhawyd, er nad oedd llawer o ddiddordeb mewn rolau llythrennedd carbon, fod nifer fawr o staff wedi manteisio ar hyfforddiant. Byddai oedi o ran hyfforddi a gweithredu, ond roedd staff wedi'u cymell i gynnal y recriwtio.

40. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ddiweddariad i'r Bwrdd ar Amcan Llesiant 3 a thynnodd sylw at y ffaith bod pum metrig wedi cael statws melyn a phedwar wedi cael statws gwyrdd. Mewn perthynas â metrig C21, gofynnwyd i ba raddau yr oedd CNC yn glynu wrth ymyriadau'r dalgylch yn ganolog. Roedd y tîm yn adrodd yn erbyn y camau i'w cymryd.

41. Trafododd y Bwrdd y niferoedd mewn perthynas â'r Rhaglen Arolygu Cydymffurfedd, a oedd wedi gwella'n ddiweddar. Roedd tystiolaeth i awgrymu bod y rhaglen yn rhagweithiol a bod staff yn mynychu digwyddiadau lle'r oedd yr effaith yn gyfyngedig neu wedi mynd heibio.

42. Awgrymwyd y gallai'r sgoriau a roddir i fetrigau C17 ac C18 sbarduno camau gweithredu pellach gan Lywodraeth Cymru i newid y polisi i fuddsoddi mewn seilwaith er mwyn i CNC gydymffurfio.

43. Amlinellwyd yr Adroddiad Perfformiad Mewnol. Nodwyd y ddau fesur ynghylch y Swyddfa Rheoli Rhaglenni a chaffael. Roedd y Tîm Gweithredol yn trafod dangosyddion perfformiad allweddol y Swyddfa Rheoli Rhaglenni, contractau a dangosyddion perfformiad allweddol chaffael, a sut mae cyflawni'r rhain. Amlygwyd yr adran ffug yn y papur a byddai'r tîm yn darparu gwybodaeth ychwanegol ynghylch y gwaith busnes fel arfer, unrhyw faterion a nodwyd, a pha waith fyddai'n cael ei wneud i gydbwyso'r materion.

44. Cymeradwyodd y Bwrdd y diweddariad chwarterol (Ch3) ar Ddangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd y diweddariad chwarterol (Ch3) ar Ddangosfwrdd Perfformiad y Cynllun Busnes.**

## Eitem 9. CNC ar X (Twitter gynt)

Cyflwynydd: Meinir Wigley, Pennaeth Cyfathrebu a Thrawsnewid Digidol; Lynette Bowley, Arweinydd Tîm, Ymgyrchoedd a Phrosiectau

45. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol yr eitem. Rhoddodd yr Arweinydd Tîm, Ymgyrchoedd a Phrosiectau, drosolwg o'r dull gweithredu o ran presenoldeb CNC ar X (Twitter gynt) yn y dyfodol. Roedd yr argymhellion a ddarparwyd wedi'u seilio ar ystyried gadael X ac i ddadactifadu cyfrif CNC, lleihau defnydd o'r platfform, neu barhau i'w ddefnyddio.

46. Awgrymodd y Bwrdd y gallai Opsiwn B, sef lleihau'r defnydd o X, fod yr opsiwn gorau ond dylai'r tîm adolygu hyn dros amser. Dylid adolygu'r amserlenni ar gyfer y penderfyniad hwn hefyd.

47. Nodwyd bod sefydliadau eraill hefyd yn edrych ar eu defnydd o X, ac wedi bod yn edrych ar Bluesky fel platfform amgen i'w ddefnyddio. Awgrymwyd y gallai CNC ddefnyddio'r platfform hwn hefyd. Roedd y tîm yn adolygu'r Llawlyfr Cyfryngau Cymdeithasol ar gyfer y gwahanol blatfformau; byddai'r egwyddorion yn cael eu rhannu gyda'r Bwrdd ar ôl iddynt gael eu cytuno.

48. Awgrymwyd y gellid rhannu fersiwn o'r papurau cyfathrebu a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid hefyd yn Adroddiad y Prif Weithredwr yng nghyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

49. Cymeradwyodd y Bwrdd Opsiwn B fel y dull gweithredu ar gyfer presenoldeb CNC ar X yn y dyfodol.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd Opsiwn B o ran y dull gweithredu ar gyfer presenoldeb CNC ar X (Twitter gynt) yn y dyfodol.**

## Eitem 10. Chwaraeon modur ar y tir sydd yng ngofal Cyfoeth Naturiol Cymru

Cyflwynwyr: Dave Liddy, Prif Gynghorydd Arbenigol, Cynllunio Hamdden Ystadau

50. Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu'r eitem. Darparodd y Prif Gynghorydd Arbenigol, Cynllunio Hamdden Ystadau, wybodaeth am gyd-destun chwaraeon modur ar y tir sydd yng ngofal CNC ac amlinellodd y pedwar opsiwn yn y papur, gan gynnwys yr opsiwn a argymhellir i adnewyddu'r cytundeb meistr ac ynysu CNC ymhellach oddi wrth weinyddiaeth chwaraeon modur ar dir sy'n eiddo i Lywodraeth Cymru. Cefnogwyd yr opsiwn a argymhellwyd gan gyfarwyddyd y Strategaeth Hamdden i gyfyngu ar faint o adnoddau CNC sydd ar gael ar gyfer gweithgareddau o'r fath.

51. Roedd cefnogaeth i'r opsiwn a argymhellwyd ond gydag anogaeth yn y cytundeb meistr i drefnwyr ymdrechu am welliant amgylcheddol parhaus, gyda ffocws ar ôl troed carbon. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod datblygiad chwaraeon modur yn y modd hwn yn gyfyngedig. Cydnabuwyd y cais gan Lywodraeth Cymru i barhau â chwaraeon modur ar y tir sydd yng ngofal CNC.

52. Roedd cefnogaeth i Opsiwn 2 fel yr amlinellwyd yn y papur, gan y byddai hyn yn sbarduno nodau cynaliadwyedd mwy uchelgeisiol. Awgrymwyd opsiwn hybrid o 1 gydag elfennau cynaliadwyedd o 2 hefyd.

53. Atgoffwyd y Bwrdd mai Llywodraeth Cymru oedd perchnogion y tir a'u bod wedi gwneud eu safbwynt yn glir ar barhad chwaraeon modur ar y tir yng ngofal CNC. Awgrymwyd bod y safbwynt yn cyd-fynd ag Opsiwn 1.

54. Ymhellach i’r drafodaeth ar gynnwys elfennau o Opsiwn 2, esboniwyd y gwahaniaeth rhwng y ddau opsiwn. Roedd gan Motorsports UK gynigion cynaliadwyedd ar waith. Byddai Opsiwn 5.1, a argymhellir, yn ei gwneud yn ofynnol iddynt ddarparu adnoddau ar gyfer monitro ac adrodd, gydag elfen o oruchwyliaeth gan CNC, tra byddai Opsiwn 5.2 yn ei gwneud yn ofynnol i CNC ddarparu adnoddau ar gyfer monitro ac adrodd ar weithgareddau.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd CNC argymhelliad Opsiwn 1 (paragraff 5.1) yn y papur chwaraeon modur ar y tir yng ngofal Cyfoeth Naturiol Cymru.**

## Eitem 11. Adroddiad chwarterol llesiant, iechyd a diogelwch

Cyflwynydd: Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch

55. Adolygodd a chymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch Chwarter 3.

**PENDERFYNIAD: Cymeradwyodd y Bwrdd Adroddiad Llesiant, Iechyd a Diogelwch Chwarter 3.**

## Eitem 12. Unrhyw fater arall

56. Ni thrafodwyd unrhyw beth arall.

## Eitem 13. Sut wnaethon ni berfformio yn y cyfarfod hwn?

Noddwr a chyflwynydd: Syr David Henshaw, Cadeirydd

57. Croesawodd y Bwrdd fformat y cyfarfod a chytunodd ei fod wedi bod yn gyfarfod effeithiol.

## Daeth y cyfarfod i ben

## Sesiwn holi ac ateb gyhoeddus

58. Cyflwynodd y Cadeirydd y sesiwn holi ac ateb ar gyfer y cyhoedd.

59. Darparodd Cyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol ymateb mewn perthynas â’r canolfannau ymwelwyr mewn ymateb i’r cwestiynau a godwyd gan aelodau’r cyhoedd.

60. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu ymateb mewn perthynas â chwestiwn a godwyd ynghylch dyfarniad hanesyddol diweddar yr Uchel Lys bod rhaid dosbarthu tail o ffermio da byw fel gwastraff diwydiannol.

61. Rhoddodd Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch biffenylau polyclorinedig (PCBs). Darparwyd diweddariad ar y ddau safle biffenylau polyclorinedig penodol a grybwyllwyd.

## Daeth y cyfarfod cyhoeddus i ben

## Cofnod Camau Gweithredu'r Bwrdd – Cyhoeddus

| Rhif y cam gweithredu | Categori'r cyfarfod | Dyddiad y cyfarfod | Rhif yr eitem | Rhif y paragraff | Noddwr y papur | Cam gweithredu | Perchennog | Dyddiad ar gyfer cwblhau | Statws | Nodiadau / Yr wybodaeth ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **7** | Cyhoeddus | 23 Ionawr 2025 | 6 | 25 | Syr David Henshaw | CAM GWEITHREDU: Y Cadeirydd, y Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd i adolygu sut y byddai'r sesiynau holi ac ateb ar gyfer y cyhoedd yn cael eu hwyluso mewn cyfarfodydd yn y dyfodol, a pharatoi cynnig i'w rannu â'r Bwrdd. | Phil Williams, Pennaeth Llywodraethu ac Ysgrifennydd y Bwrdd | 19 Mawrth 2025 | Cwblhawyd | AWGRYMU AR GYFER CAU: Cyflwynwyd hyn yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth a byddai'r sesiwn holi ac ateb i'r cyhoedd yn parhau tra bod y dulliau eraill yn dechrau cael eu datblygu. |
| **8** | Cyhoeddus | 23 Ionawr 2025 | 9 | 34 | Rachael Cunningham | CAM GWEITHREDU: Y Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch i egluro a ellid rhannu'r system rheoli dysgu â chynulleidfaoedd allanol. | Charlotte Morgan, Rheolwr Llesiant, Iechyd a Diogelwch | 19 Mawrth 2025 | Yn parhau | |

# Papur Bwrdd CNC

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 22 Mai 2025 |
| **Teitl y papur:** | Adroddiad y Prif Weithredwr (Sesiwn Gyhoeddus) |
| **Cyfeirnod y papur:** | 25-05-B09 |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Ceri Davies, Prif Weithredwr Dros Dro |
| **Diben** | Gwybodaeth a thrafodaeth |
| **Crynodeb** | Mae'r papur yn rhoi diweddariad i'r bwrdd ar faterion cyfredol. |

# Cyflwyniad

1. Mae misoedd y gwanwyn wedi dod nid yn unig â thywydd braf iawn, ond hefyd ymdeimlad cadarnhaol o egni ac optimistiaeth ar draws y sefydliad. Mae camau olaf ein proses achos dros newid yn digwydd, ac rydym yn dal i fuddsoddi cryn dipyn o amser a sylw i sicrhau ein bod yn dilyn y broses briodol ac yn gwneud y penderfyniadau cywir. Mae llawer o gydweithwyr a gafodd eu heffeithio gan y broses newid bellach wedi symud i rolau newydd o fewn y sefydliad ac mae timau newydd yn dechrau ffurfio. Mae recriwtio wedi agor eto ac mae ein timau Gwasanaethau Pobl yn gweithio'n galed i sicrhau bod hyn yn digwydd mor esmwyth â phosibl. Er y bydd newid a gwelliant yn parhau, rydym bellach yn gallu canolbwyntio'n fwy dwys ar gyflawni amcanion ein cynllun corfforaethol.

2. Ar ddechrau mis Ebrill, cynaliasom gyfarfod i'r Tîm Gweithredol a'r Tîm Arwain yn ein swyddfa yn Aberystwyth. Roedd hwn yn gyfle gwerthfawr i ailgrwpio a rhannu ein meddyliau am y gwerthoedd, y diwylliant, yr arweinyddiaeth a'r ffyrdd o weithio yr ydym am eu harddangos yn ein hymddygiadau ein hunain, a'u meithrin yn ein timau. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y trafodaethau hyn fel tîm ac o fewn cyfarwyddiaethau dros y misoedd nesaf.

3. Tra oeddwn i yn swyddfa Aberystwyth, manteisiais ar y cyfle i gyfarfod a sgwrsio'n anffurfiol â chydweithwyr, a mwynheais hynny. Rwyf hefyd wedi treulio amser yn ein swyddfa yn Nhrefynwy ac ym Mharc Cathays yng Nghaerdydd. Mae fy nghydweithwyr yn y Tîm Gweithredol yn gwneud ymdrech debyg i ymweld â gwahanol swyddfeydd, gan roi cyfle i bobl ofyn cwestiynau a deall ein blaenoriaethau a'n cyfeiriad yn well. Mae galwadau misol y Diweddariad i Reolwyr

bellach yn cynnwys diweddariadau lefel uchel gan y Tîm Gweithredol, gan ddarparu mwy o hygyrchedd a thryloywder unwaith eto. Mae'r sesiynau'n rhyngweithiol ac rydym wedi cael adborth da am eu tôn a'u cynnwys.

4. Yn gynnar ym mis Ebrill, mynychais gyfarfod Rhanddeiliaid Uwch Llywodraeth Cymru (LlC) mewn cysylltiad â'r Comisiwn Dŵr Annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys prif weithredwyr, neu eu cynrychiolwyr, Dŵr Cymru, Hafren Dyfrdwy, Ofwat, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr. Fe wnaeth ganiatáu i ni i gyd rannu'r cyfraniad y dylid ei wneud at waith y comisiwn a'r angen i dynnu sylw at wahaniaethau posibl yn y drefn reoleiddio yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr. Mae mwy am ein cyflwyniad i'r comisiwn isod.

5. Gyda fy nghydweithwyr yn y Tîm Gweithredol, mynychais sesiwn ar y cyd â thîm gweithredol Dŵr Cymru, a gynhaliwyd yn eu canolfan ymwelwyr yng nghronfeydd dŵr Llanisien a Llys-faen, i rannu arfer gorau mewn arweinyddiaeth a dysgu am sut maen nhw'n bwriadu buddsoddi £1.7 biliwn dros y pum mlynedd nesaf i wella ansawdd dŵr a'r amgylchedd yng Nghymru. Bydd y broses hon o ddysgu gan sefydliadau eraill yn parhau gyda sesiwn ar y cyd â thîm gweithredol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ddechrau mis Mehefin.

6. Cynhaliwyd y cyntaf o'n cyfarfodydd Fforwm Llywodraethu Dŵr ym mis Ebrill hefyd. Mae'r fforwm yn dwyn ynghyd gadeiryddion CNC, Dŵr Cymru, Hafren Dyfrdwy ac Ofwat ac, ar yr achlysur hwn, ymunodd y Dirprwy Brif Weinidog â ni, ar gyfer eitemau ar yr agenda, gan gynnwys llywodraethu dŵr yng Nghymru, y ffyrdd gorau o gydweithio, a'r potensial ar gyfer atebion ar sail natur. Mynegodd y Dirprwy Brif Weinidog ei ddisgwyliad y dylai'r grŵp gynhyrchu gweledigaeth sy'n canolbwyntio ar weithgareddau a chanlyniadau a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i ansawdd dŵr yng Nghymru. Trafodwyd ein Prosiect Arddangos Dalgylch Teifi hefyd, ochr yn ochr â'n datganiad data ansawdd dŵr diweddar a gwaith cychwynnol y Comisiwn Dŵr Annibynnol.

7. Ym mis Ebrill, mynychodd Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, Gyfarfod Llawn Rhwydwaith yr Asiantaethau Diogelu'r Amgylchedd Ewropeaidd yn Fienna, Awstria. Mae'r gynhadledd hon o asiantaethau diogelu'r amgylchedd Ewropeaidd yn gyfle gwerthfawr i ni ymgysylltu â chydweithwyr ledled Ewrop ar ystod eang o bynciau pwysig. Mae gennym yr anrhydedd o gynnal y cyfarfod llawn nesaf, ym mis Hydref, ac mae'r cynllunio ar y gweill i sicrhau bod hon yn gynhadledd addysgiadol a phleserus i'r mynychwyr. Mae mwy am hyn isod.

8. Yn ystod wythnos gyntaf mis Mai, cynhaliwyd sesiwn gyflwyno i'r bwrdd a chroesawyd ein tri aelod newydd o'r bwrdd, Dr Hushneara Begum, Dr Rebecca Colley-Jones ac Adam Taylor. Mae cael safbwyntiau a phrofiad ffres ar ein bwrdd bob amser i'w groesawu ac rydym am i swyddi cyfarwyddwyr anweithredol gydag CNC fod yn brofiad da o'r cychwyn cyntaf. Rhoddodd y sesiwn sefydlu drosolwg cynnar ac eang o rôl a chyfrifoldebau aelodau Bwrdd CNC, ein sefydliad a'n gwaith. Roedd yr ail ddiwrnod yn cynnwys hyfforddiant llywodraethu, a oedd yn

caniatáu i mi fy hun a chydweithwyr yn y Tîm Gweithredol wella ein gwybodaeth, yn enwedig am rôl y Swyddog Cyfrifyddu. Bydd aelodau newydd ein bwrdd yn treulio amser yn dysgu mwy am CNC, yn ymweld â'n safleoedd ac yn cwrdd â thimau dros y misoedd nesaf.

9. Ym mis Mai, mynychais ENCA35 ym Mrwsel. Dyma gynhadledd flynyddol Rhwydwaith Amgylcheddol Penaethiaid Asiantaethau Cadwraeth Natur, grŵp llai na'r Asiantaethau Diogelu'r Amgylchedd Ewropeaidd ond gyda'r un nod o rannu arbenigedd ac arfer gorau a chydweithio mewn perthynas â heriau amgylcheddol presennol a rhai'r dyfodol. Thema'r gynhadledd oedd "adfer natur fel elfen allweddol o drawsnewidiad ar gyfer natur" ac, ar yr ail ddiwrnod, arweiniodd Nick Bialynicki-Birula o CNC sesiwn ysgogol ar drawsnewidiad ar gyfer natur.

10. Yn ystod mis Ebrill, cyfarfûm â Dr Andy Fraser, Dirprwy Gyfarwyddwr Gwydnwch a Diogelwch Gwladol Llywodraeth Cymru, ac ar wahân â Philip Bowen, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi a Chyflenwi Digidol. Rwyf hefyd yn parhau i siarad yn rheolaidd â Claire Bennett, Cyfarwyddwr Newid Hinsawdd a Chynaliadwyedd Amgylcheddol. Ym mis Mai, cefais gyfarfod cyflwyniadol gyda Rebecca Godfrey, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro newydd Awdurdod Refeniw Cymru, a chyfarfûm â'r Athro Lynda Warren, Asesydd Diogelu'r Amgylchedd Dros Dro newydd Cymru.

## Materion strategol

### Galwad am dystiolaeth gan y Comisiwn Dŵr Annibynnol

11. Nod y Comisiwn Dŵr Annibynnol dan gadeiryddiaeth Syr Jon Cunliffe yw cyflwyno dull hirdymor o ailsefydlu'r sector dŵr a sicrhau ei fod yn diwallu anghenion cwsmeriaid a'r amgylchedd a bydd yn sail i ddeddfwriaeth bellach. Mae'r Comisiwn Dŵr Annibynnol yn ystyried yn bennaf y system reoleiddio mewn perthynas â'r diwydiant dŵr a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.

12. Rydym wedi bod yn gweithio gyda'r comisiwn, a gyhoeddodd alwad eang am dystiolaeth, yr ymatebwyd iddi ar 23 Ebrill. Mae ein hymateb yn tynnu sylw at yr angen am ddull integredig o reoli dŵr, dull hirdymor o gynllunio dŵr, a fframwaith hyblyg sy'n gymesur â maint y problemau yng Nghymru. Y camau nesaf i'r comisiwn yw adroddiad interim erbyn diwedd mis Mai yn tynnu sylw at eu prif argymhellion, ac adroddiad terfynol yn yr haf. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â nhw wrth iddynt ddatblygu a rhannu eu hargymhellion ar gyfer Cymru.

### Cyfarfod Llawn Rhwydwaith Asiantaethau Diogelu'r Amgylchedd Ewropeaidd

13. Cynrychiolodd Dominic Driver, Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro Tystiolaeth, Polisi a Thrwyddedu, CNC yng Nghyfarfod Llawn Rhwydwaith Asiantaethau Diogelu'r Amgylchedd Ewropeaidd ym mis Ebrill. Cynhaliwyd y gynhadledd yn Fienna gan Umwelt Bundesamt, asiantaeth amgylchedd Awstria. Cadeiriodd Dom sesiwn gynhadledd ar weithgareddau'r rhwydwaith ers y cyfarfod blaenorol,

arweiniodd sesiwn grŵp, a rhoddodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r gynhadledd ar y cynnig ar gyfer cyfarfod llawn mis Hydref, a gynhelir yng Nghaerdydd gan CNC.

14. Ymhlith yr uchafbwyntiau, roedd sesiynau ar rôl ymddiriedaeth mewn trawsnewid a goblygiadau deallusrwydd artiffisial ar gyfer asiantaethau amgylcheddol; anerchiad ar-lein gan Weinyddiaeth Diogelu'r Amgylchedd Wcráin, sy'n dal i geisio diogelu'r amgylchedd mewn cyfnod o ryfel; a chyfleoedd gwerthfawr i drafod gyda chydweithwyr o bob cwr o Ewrop.

15. Cynhelir y cyfarfod llawn nesaf ym Mae Caerdydd ym mis Hydref. Mae'r agenda wedi'i gosod gan droica o'r gwesteiwr sy'n gadael (Awstria), y gwesteiwr presennol a'r gwesteiwr nesaf (Croatia), gyda chefnogaeth ysgrifenyddiaeth Asiantaethau Diogelu'r Amgylchedd Ewropeaidd. Rydym yn cynnig ffocws ar reoli etifeddiaeth ddiwydiannol yn gynaliadwy a thueddiadau yng nghyflwr yr amgylchedd gan ddefnyddio ein Hadroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol ein hunain ac adroddiad Amgylchedd Ewrop 2025 Asiantaeth Amgylcheddol Ewrop.

**Rhaglen Lleihau Allyriadau Safleoedd Tirlenwi**

16. Mae CNC wedi cael ei gynrychioli mewn sesiwn trosglwyddo gwybodaeth Secondiad Cronfa'r Dyfodol gyda Llywodraeth Gorllewin Penrhyn De Affrica a Llywodraeth Talaith Cross River. Mae Cronfa'r Dyfodol yn ffynhonnell ariannu hinsawdd, gan gefnogi llywodraethau is-genedlaethol mewn rhanbarthau sy'n datblygu ac yn dod i'r amlwg ar eu taith i gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050. Mae CNC a Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r gronfa gyda dysgu gan gymheiriaid.

17. Rhoddodd Andy Rees, Pennaeth Strategaeth Gwastraff Llywodraeth Cymru, drosolwg o'r daith bolisi i leihau tirlenwi gwastraff trefol bioddiraddadwy yng Nghymru, tra bod Mostyn Wall o CNC wedi rhoi trosolwg o effeithiau nwy tirlenwi a sut rydym yn gwella ei ddal i leihau allyriadau methan. Mae canlyniadau ac effaith y prosiect Rhaglen Lleihau Allyriadau Safleoedd Tirlenwi wedi creu argraff ar Lywodraeth Cymru ac wedi agor drysau i'r cyfle hwn i rannu ein profiad mewn fforwm byd-eang. Mae canlyniadau'r Rhaglen Lleihau Allyriadau Safleoedd Tirlenwi mewn data ffaglu nwy hefyd yn agor cydweithrediadau posibl yn y dyfodol gyda Defra a dysgu pellach gan gymheiriaid gan Gronfa'r Dyfodol.

**Adroddiad Argymhellion Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol**

18. Rydym wedi bod yn cefnogi Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i greu ei Adroddiad Argymhellion Statudol i Lywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ar 29 Ebrill mewn digwyddiad a fynychwyd gan aelod o Fwrdd CNC, Lesley Jones. Dyma'r argymhellion sy'n ymwneud â hinsawdd a natur:

- Dylai Llywodraeth Cymru wneud y canlynol:
  - Cyflwyno prif darged statudol ar gyfer adfer natur erbyn 2050
  - Datblygu fframwaith defnydd morol a thir integredig
  - Ehangu rôl partneriaethau dalgylchoedd

  - Rhoi pwerau i CNC ar gyfer sancsiynau sifil
  - Ysgogi cyllid y sector preifat
  - Clustnodi dirwyon amgylcheddol er mwyn ariannu gweithredu ar natur a newid hinsawdd

- Dylai cyrff cyhoeddus gyflawni'r canlynol:
  - Blaenoriaethu gwydnwch hinsawdd a budd net i fioamrywiaeth, a lleihau'r defnydd o blaladdwyr wrth reoli ystadau
  - Cydweithio â'r sector ynni cymunedol drwy ryddhau tir ar gyfer mentrau ar y cyd a phrynu trydan o brosiectau adnewyddadwy lleol
  - Rhaid i wydnwch ac addasu i'r hinsawdd ddod yn flaenoriaeth graidd i wasanaethau cyhoeddus. Erbyn diwedd 2027, dylai Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus asesu risgiau hinsawdd, gan ddiweddaru eu canfyddiadau bob pum mlynedd fel rhan o'u hasesiadau llesiant. Rhaid i gyrff cyhoeddus integreiddio'r canfyddiadau hyn yn eu cynllunio
  - Bod yn rhydd o ddatgoedwigo erbyn 2028 a sicrhau nad yw cadwyni cyflenwi yn cyfrannu at ddatgoedwigo, colli cynefinoedd na thorri hawliau dynol

# Materion gweithredol

**Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu**

19. Cafodd darpariaeth o Ddeddf Dŵr 2003 ynghylch tynnu dŵr a oedd wedi'i eithrio o'r blaen ei deddfu ym mis Ionawr 2018. Newidiodd hyn y ffordd y gall camlesi dynnu dŵr o afonydd, er na wnaeth atal tynnu dŵr. Yna rhoddwyd dwy flynedd i awdurdodau mordwyo a oedd wedi'u heithrio rhag gorfod cael trwyddedau tynnu dŵr gyflwyno ceisiadau.

20. Cyflwynodd Glandŵr Cymru geisiadau ar gyfer Camlas Sir Fynwy ac Aberhonddu, a rhoddodd CNC y trwyddedau tynnu dŵr yn unol â'r dyddiad cau ym mis Rhagfyr 2022, gydag amodau a gynlluniwyd i amddiffyn cyfanrwydd ecolegol Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) Afon Wysg ac Aber Afon Hafren. Ym mis Ionawr 2023, apeliodd Glandŵr Cymru i Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru yn erbyn dau amod penodol mewn dau o'r trwyddedau, gan eu hatal nes cyrraedd penderfyniad. Yn dilyn gwrandawiad ar 15 Hydref y llynedd, gwrthodwyd yr apeliadau gan Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru ar 18 Tachwedd, gan gadarnhau bod yr amodau'n angenrheidiol i amddiffyn cyfanrwydd ecolegol ACA Afon Wysg ac Aber Afon Hafren, a'u rhoi ar waith.

21. Yn dilyn yr apêl, rydym bellach yn sefydlu ein dull rheoleiddio gyda Glandŵr Cymru ar lefel fwy lleol. Yn absenoldeb unrhyw ddewis arall hyfyw ar hyn o bryd, mae angen i Glandŵr Cymru ddefnyddio dŵr o echdynnu trwyddedig Dŵr Cymru, pan fydd llifau'n caniatáu, er mwyn cynnal lefelau yn y gamlas. Bydd adegau (ar lif isel) pan na fydd Dŵr Cymru yn caniatáu hyn, ond pan fyddant yn gwneud hynny, bydd angen iddynt godi tâl ar Glandŵr Cymru ar y gyfradd fasnachol. Mae Glandŵr Cymru wedi nodi ei bod hi'n debygol na fydd hyn yn fforddiadwy iddyn nhw, ac

wedi ysgrifennu at y Dirprwy Brif Weinidog ynglŷn â'r sefyllfa, gan gynghori bod dyfodol y gamlas mewn amheuaeth ddifrifol.

22. Yng ngoleuni diddordeb sylweddol gan gynrychiolwyr gwleidyddol, cynghorwyr lleol, y cyfryngau a rhanddeiliaid eraill, rydym yn ceisio sicrhau dealltwriaeth o gyd-destun y newidiadau hyn a'n rôl a'n cylch gwaith yn y mater. Er nad ydym yn rhan o unrhyw drefniadau masnachol posibl ar gyfer darparu cyflenwadau dŵr amgen ar gyfer y gamlas nac wrth bennu'r gost gysylltiedig (gan mai materion i Glandŵr Cymru a Dŵr Cymru yw'r rhain), rydym wedi gweithio'n galed gyda Glandŵr Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys Dŵr Cymru, i hwyluso datrysiad amgylcheddol drwy gydol y cyfnod ers nodi goblygiadau'r newidiadau deddfwriaethol. Mae rheoleiddio tynnu dŵr yn gymhleth a rhaid iddo fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn; ein blaenoriaeth fu amddiffyn cyfanrwydd ecolegol ACA Afon Wysg ac Aber Afon Hafren a sicrhau bod unrhyw dynnu dŵr yn gynaliadwy yn amgylcheddol.

23. Er ein bod yn cydnabod ein rôl reoleiddio, rydym yn parhau i fod wedi ymrwymo i gydweithio â Glandŵr Cymru, gan ymgysylltu ar lefel uwch a chyda'r grŵp technegol a gynullwyd ganddynt, er mwyn helpu i lywio unrhyw atebion posibl i reoli echdynnu dŵr mewn ffordd sy'n cefnogi iechyd a chydnerthedd hirdymor yr afon.

**Yr Eisteddfod Genedlaethol**

24. Ddechrau mis Ebrill, cyflwynodd trefnwyr yr Eisteddfod Genedlaethol gais am drwydded mewn perthynas â safle Wrecsam, lle cynhelir digwyddiad eleni. Mae'r Eisteddfod Genedlaethol i fod i ddechrau ganol mis Gorffennaf a gallai arwain at aflonyddu ar fadfallod dŵr cribog ar y safle.

25. Er mwyn sicrhau bod y cais yn cael ei brosesu'n gyflym, roedd ein tîm rhywogaethau gwarchodedig wedi ymgysylltu â'r ymgynghorwyr a gyflogir gan yr Eisteddfod, a llwyddodd ein tîm trwyddedu i brosesu'r cais yn gyflym. Dyroddwyd y drwydded ar 14 Ebrill a bydd yn weithredol o 1 Mehefin, gydag amodau yn sicrhau gwarchodaeth y madfallod dŵr cribog, Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop. Bydd yr Eisteddfod yn defnyddio cŵn arogli madfallod dŵr arbenigol a ffensys i leihau unrhyw effaith. Bydd unrhyw achosion o dorri'r amodau yn fater i Heddlu Gogledd Cymru i'w gorfodi.

**Estyniad Chwarel Trefil, Blaenau Gwent**

26. Cais oedd hwn i ymestyn chwarel calchfaen ym Mlaenau Gwent. Fe wnaethom wrthwynebu oherwydd difrod i nodweddion diddordeb arbennig SoDdGA Mynydd Llangynidr, a ddynodwyd oherwydd ei ddiddordeb geomorffolegol o bwysigrwydd cenedlaethol (calchfaen carstig). Nododd adroddiad y pwyllgor ein gwrthwynebiad yn llawn ac asesodd y goblygiadau i'r SoDdGA. Er bod rhagdybiaeth yn erbyn datblygu ar SoDdGA, mae yna ganllawiau polisi sylweddol hefyd ynghylch diogelwch cyflenwadau mwynau.

27. Ar ôl mesur a phwyso'r cais, penderfynodd pwyllgor cynllunio'r awdurdod cynllunio lleol ei gymeradwyo. Ers y penderfyniad, mae'r SoDdGA wedi'i ehangu'n sylweddol a'i ail-hysbysu fel "Mynyddoedd Llangynidr a Llangatwg, Cefn yr Ystrad a Chomin Merthyr", sef cyfuniad o dri SoDdGA presennol ym Mynydd Llangynidr, Mynydd Llangatwg, a Chwar yr Ystrad a Chwar Blaen Dyffryn. Dewiswyd yr ehangiad ffin helaeth (cynnydd yn yr arwynebedd cyffredinol o dros 4,500 hectar) ar gyfer dros hanner cant o nodweddion daearegol a biolegol cymwys unigol, gan gwmpasu amrywiol gynefinoedd, rhywogaethau, cymuniadau a ffurfiau daearegol.

28. Oherwydd yr amgylchiadau, roedd yn ofynnol i'r awdurdod cynllunio lleol hysbysu Llywodraeth Cymru o'u bwriad i ganiatáu'r cais, gyda Llywodraeth Cymru yn cael y cyfle i 'alw'r cais i mewn' i'w adolygu. Penderfynodd Llywodraeth Cymru yn erbyn gwneud hynny, ac o ganlyniad bydd yr awdurdod cynllunio lleol yn rhoi'r caniatâd yn ffurfiol.

**Ffyrdd newydd o weithio**

29. Wrth weithredu'r achos dros newid, rydym hefyd yn parhau i esblygu ein ffyrdd o weithio. Nododd ein hymateb i'r ymgynghoriad, "Bydd yn rhaid i ni addasu ein ffyrdd o weithio yn barhaus, gan fod yn ystwyth ac yn hyblyg yn wyneb amgylchiadau sy'n newid a phrofi offer a dulliau arloesol."Darperir dwy enghraifft yma:

- **Dull sy'n seiliedig ar risg o ymateb i ddigwyddiadau**

  Rydym yn symud tuag at weithredu'n llawn ein dull ymateb i ddigwyddiadau sy'n seiliedig ar risg. Trafodwyd hyn gyda'r bwrdd yn ystod diweddariad ar Amcan Llesiant 3 ym mis Mawrth 2024, a chynhwyswyd y newid yn ein hachos dros newid fel rhan o'r ffyrdd newydd o weithio. Mae'r newid yn arwyddocaol i'n timau, y cyhoedd ac, yn y pen draw, i'r amgylchedd, ac yn angenrheidiol os ydym am ganolbwyntio ein hadnoddau ar gyflawni'r canlyniadau yr ydym eu heisiau.

  Mae'r newid yn rhan o symudiad o tua 25% o adnoddau staff timau'r amgylchedd seiliedig ar leoedd o waith cymorth grant heb ei ariannu i waith a ariennir gan daliadau. Fe wnaethon ni lansio'n ysgafn o 1 Ebrill drwy ofyn i gydweithwyr feddwl am yr egwyddorion ac i gwestiynu presenoldeb mewn digwyddiadau llygredd, gan ganolbwyntio ar ddigwyddiadau categori uchel yn unig lle gallwn gael effaith o ran cyfyngu ar niwed amgylcheddol pellach neu am resymau gorfodi.

  Mae gweithrediad llawn wedi'i gynllunio ar gyfer 1 Gorffennaf gyda newidiadau polisi, canllawiau diwygiedig ac ymgysylltu â'n timau ar yr hyn y mae'n ei olygu yn ymarferol. Bydd cyfathrebiadau mewnol ac allanol hefyd, gan gynnwys gweminar i'r bwrdd, i esbonio'r newidiadau.

- **Dull symlach o ganiatáu gweithgareddau ar y tir yn ein gofal**

Cafodd ymrwymiad i ddiwygio ein prosesau ar gyfer caniatáu i eraill gynnal digwyddiadau a gweithgareddau sy’n gwella iechyd meddwl a lles corfforol ein cymunedau, gan sicrhau eu bod yn digwydd yn y lle iawn ac ar yr amser iawn, ei gynnwys yn ein Strategaeth ar gyfer Hamdden.

Mae’r newid yn arwyddocaol i’n timau mewn stiwardiaeth tir a’n canolfan gyswllt, gyda’r olaf yn prosesu ac yn dosbarthu ceisiadau trwyddedu cychwynnol. Rydym wedi cynnwys ein timau cyfreithiol ac iechyd a diogelwch yn y gwaith o ddatblygu’r dull newydd, yr ydym yn bwriadu ei lansio o 1 Mai. Mae canllawiau diwygiedig wedi’u datblygu, ac rydym yn gweithio gyda staff y ganolfan gyswllt a thimau seiliedig ar leoedd i’w helpu i ddeall a gweithredu’r newidiadau.

**Tanau gwyllt ar y tir yn ein gofal**

30. Ym mis Mawrth ac Ebrill, adroddodd y Gwasanaethau Tân ac Achub ledled Cymru am tua 1,400 o danau gwyllt. Roedd y rhan fwyaf o’r rhain ar raddfa fach a chawsant effaith gyfyngedig. Y tân mwyaf yng Nghymru hyd yn hyn eleni oedd uwchben Coedwig Tywi a chwmpasodd dros 5,000 hectar.

31. Fe wnaethon ni gofnodi 23 o danau a effeithiodd ar y tir yn ein gofal. Gweithiodd ein staff yn galed yn ystod oriau gwaith a thu allan i gefnogi’r Gwasanaethau Tân ac Achub. Amcangyfrifon cychwynnol yw bod tua 100 hectar o goed a blannwyd yn ddiweddar ar ôl cwympo’r coed yn llwyr (‘ailstocio’) wedi’u llosgi, a allai gostio tua £500,000 i’w hadfer. Bydd ailblannu’n digwydd yn y blynyddoedd i ddod a gall olygu atal neu ohirio gwaith arall a gynlluniwyd. Mae cynefinoedd eraill sydd wedi’u difrodi ar y tir yn ein gofal yn cynnwys tomenni rwbel, rhostir a mawndir.

32. Bydd timau seiliedig ar leoedd yn parhau i asesu’r difrod, adeiladu rhaglenni gwaith, ac adrodd yn ôl i ganiatáu casglu ac adolygu data’n ganolog. Mae ansawdd ein hymateb i ddigwyddiadau yn dangos budd y buddsoddiad rydym wedi’i wneud mewn rotas, hyfforddiant, gweithdrefnau, a’n perthynas â’r Gwasanaethau Tân ac Achub. Mae yna enghreifftiau lle mae’n ymddangos bod yr addasiadau rydyn ni’n eu gwneud i ddyluniad a rheolaeth ein safleoedd mwy agored i niwed, yn enwedig coedwigoedd yng Nghymoedd y De, yn helpu i gyfyngu’r tanau.

33. Roedd tymor tanau gwyllt ‘normal’ cyn newid hinsawdd yn arfer bod o fis Mawrth i ddiwedd mis Mai ond, gyda’r newid yn yr hinsawdd, mae bron yn sicr o ymestyn i fis Awst. Mae tanau gwyllt yn yr haf yn debygol, os nad eleni yna yn y blynyddoedd i ddod. Mae’r rhain yn tueddu i fod yn fwy dwys ac yn fwy tebygol o ddod yn danau canopi peryglus na’r tanau ar lefel y ddaear a welir fel arfer yn y gwanwyn.

34. Llosgi bwriadol yw prif achos tanau gwyllt. Fodd bynnag, ymddengys fod nifer fawr eleni wedi’u hachosi gan losgiadau ‘rheoledig’ amhriodol. Byddwn yn cyfarfod ym mis Mehefin i ystyried y cyngor y gallem ei roi i Lywodraeth Cymru ynghylch y cod

llosgi, y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, ac a oedd unrhyw achosion o dorri deddfwriaeth o dan gylch gwaith CNC.

**Cyllid enillion troseddau ar gyfer prentisiaid**

35. Mae arian a godwyd o wrandawiadau enillion troseddau yn dilyn erlyniadau llwyddiannus am droseddau amgylcheddol ar gyfer gwastraff, pysgodfeydd a thorri coed yn anghyfreithlon wedi'i ddefnyddio i ariannu prentisiaethau yn CNC. Mae chwe phrentis wedi cwblhau eu prentisiaethau Lefel 3 mewn Cadwraeth Amgylcheddol yn llwyddiannus wrth weithio ochr yn ochr â swyddogion gorfodi mewn timau gweithredol ac ennill profiad gwerthfawr yn ein prosesau gorfodi a rheoleiddio.

**Rhaglen Argyfwng Natur a Hinsawdd**

36. Mae'r Rhaglen Argyfwng Natur a Hinsawdd wedi gorffen ei phumed flwyddyn o ddarpariaeth wych ar draws rhwydweithiau natur, mawndiroedd, ansawdd dŵr, pysgodfeydd, mwyngloddiau metel a'r Goedwig Genedlaethol. Rydym wedi cyflawni'r gyllideb lawn a ddyrannwyd o £27.5 miliwn unwaith eto diolch i rai pobl anhygoel sy'n angerddol dros wneud pethau'n iawn er lles natur a'r hinsawdd. Dros y pum mlynedd diwethaf, bu dros 400 o brosiectau gwahanol gyda phartneriaid ledled Cymru yn helpu i wella ein hafonydd, dod â'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i gyflwr gwell, ac adfer mawndiroedd. Mae hyn i gyd wedi bod yn bosibl diolch i'r cyllid gan Lywodraeth Cymru. Bydd y rhaglen yn parhau am o leiaf y tair blynedd nesaf gyda chyllid ar gyfer ansawdd dŵr a mawndiroedd eisoes wedi'i gadarnhau.

**Prosiectau LIFE**

37. Daeth dau o'n pum prosiect LIFE i ben yn 2024. Cyflwynwyd adroddiad terfynol prosiect LIFE Cyforgorsydd Cymru ym mis Medi a derbyniwyd y taliad olaf gan yr UE o €1,231,987 ym mis Mawrth eleni. Cyflwynwyd adroddiad terfynol Twyni Tywod LIFE ddechrau mis Ebrill eleni ac rydym yn disgwyl derbyn y taliad olaf yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

38. Er bod y prosiectau wedi dod i ben, mae'r ffocws bellach yn symud i gyflawni'r cynlluniau Ar ôl LIFE, sy'n nodi sut y byddwn yn cynnal ac yn adeiladu ar y buddsoddiadau a wnaed o dan brosiectau LIFE hyd at 2029.

**Cronfa Rhwydweithiau Natur (Rownd 4)**

39. Mae Cronfa Rhwydweithiau Natur yn elfen allweddol o Raglen Rhwydweithiau Natur, a lansiwyd yn 2021. Mae'n cefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i nod '30 erbyn 30' y Fframwaith Bioamrywiaeth Fyd-eang, sy'n anelu at amddiffyn 30% o dir, dŵr croyw a moroedd y blaned erbyn 2030. Mae'r gronfa'n dyfarnu grantiau o £50,000 i £1 miliwn ac fe'i rhedir mewn partneriaeth gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Llywodraeth Cymru ac CNC.

40. Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y grŵp terfynol o brosiectau llwyddiannus sy'n cwblhau ceisiadau ar gyfer Rownd 4 y gronfa. Dros gyfnod y cyfnod ymgeisio, cyflwynwyd mwy na 100 o brosiectau i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, gan ddangos y diddordeb sylweddol mewn gweithredu i ddiogelu natur. Darparodd CNC gefnogaeth ar gyfer y broses asesu a oedd yn cynnwys mewnbwn gan arbenigwyr gweithredol a pholisi. Yn y pen draw, gwahoddwyd deugain o ymgeiswyr i gyflwyno cais prosiect llawn. Dyfarnwyd cyllid o rhwng £50,000 a £250,000 i un ar ddeg o brosiectau, sef cyfanswm o tua £2.7 miliwn. Dyfarnwyd cyllid o rhwng £250,000 ac £1 miliwn i dair ar ddeg o brosiectau pellach, gan ddod i gyfanswm o dros £10 miliwn.

41. Roedd y prosiectau a ddyfarnwyd cyllid iddynt yn cynnwys mentrau i amddiffyn dolffiniaid trwyn potel, cefnogi poblogaethau gylfinirod, adfer cynefinoedd coetir a diogelu rhywogaethau pysgod pwysig ledled Cymru. Mae yna hefyd brosiectau y gall cymunedau lleol gymryd rhan weithredol ynddynt ac elwa ohonynt – fel adeiladu Canolfan Addysg Adfer Natur ar gyfer ymgysylltu ag ysgolion a hyfforddiant arolygu a monitro i wirfoddolwyr. Mae pob penderfyniad ar gael ar wefan Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (cymeradwyaethau a gwrthodiadau).

# Materion mewnol

### Perform

42. Lansiwyd y modiwl Perform newydd yn ein System Rheoli Dysgu ar 1 Ebrill. Mae'r modiwl wedi'i gynllunio i fod yn hyblyg ac i helpu cydweithwyr i gael y gorau o'u sgyrsiau ac adolygiadau Sgwrs / perfformiad. Gellir ei gyrchu o liniaduron a ffonau CNC, ac mae'n rhyngweithio â'r System Rheoli Dysgu i ddarparu un dangosfwrdd ar gyfer perfformiad, dysgu a datblygiad personol. Rydym hefyd yn creu templedi ar gyfer cofnodi cymwyseddau a phrosesau rheoli pobl eraill, fel prawf a phasbortau gwaith a llesiant.

# Cyfathrebu

### Cyfathrebu corfforaethol

43. Mae'r cyfnod hwn wedi gweld dechrau camau olaf y broses achos dros newid. Rydym wedi parhau i weithio gyda chydweithwyr ar draws y busnes i reoli ymgysylltu a chyfathrebu ynghylch y prosesau recriwtio a diswyddo, ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd a rhanddeiliaid ynghylch rhoi'r gorau i wasanaethau manwerthu ac arlwyo yn ein canolfannau ymwelwyr. Er bod y mater hwn wedi parhau i ddenu ymateb negyddol gan grwpiau ymgyrchu, rydym wedi

cynnal ein hymgysylltiad â nhw ac wedi ymdrechu i gyfleu diweddariadau cynnydd cadarnhaol ar ddarpariaethau yn y dyfodol yn y safleoedd mor aml â phosibl.

44. Fe wnaethon ni hefyd weithio’n agos gyda’r Tîm Gweithredol a’r cadeirydd i gyfleu penderfyniad Clare Pillman i ymddeol i gydweithwyr ac i’r cyfryngau. Fe wnaethon ni weithio mewn partneriaeth â’r sector cyhoeddus ledled Cymru i dynnu sylw at ein cefnogaeth i Siarter Profedigaeth Cymru.

**Arolwg omnibws blynyddol**

45. Fel rhan o’n gwaith parhaus i ddeall a gwella sut mae’r cyhoedd yn gweld CNC, fe wnaethom gomisiynu arolwg omnibws i roi cipolwg ar ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a theimlad y cyhoedd tuag at y sefydliad. Mae’r canlyniadau’n dangos cydnabyddiaeth dda ar y lefel uchaf ond hefyd bwlch rhwng ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ddyfnach o’n rôl. Roedd y farn gyffredinol yn gadarnhaol ar y cyfan, gyda 46% yn ein graddio ni fel da neu dda iawn, a dim ond 6% yn negyddol – er bod llawer yn parhau i fod yn niwtral neu’n ansicr, gan atgyfnerthu’r angen i esbonio’n well yr hyn a wnawn a pham ei fod yn bwysig. Bydd y canfyddiadau’n cael eu rhannu gyda’r Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid, ac rydym yn bwriadu ailadrodd yr arolwg fis Mawrth nesaf i olrhain cynnydd dros amser.

**Mae cymunedau’n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd**

46. Mae cyfnod hir o dywydd sych wedi gweld cynnydd mewn digwyddiadau tanau gwyllt sydd wedi effeithio ar y tir yn ein gofal. Rydym wedi cefnogi’r Gwasanaethau Tân ac Achub i rannu negeseuon penodol i ddigwyddiadau, gan amlygu lle mae arbenigedd a gwybodaeth ein cydweithwyr, a’n hofrennydd, wedi cefnogi’r ymdrechion diffodd tân. Mae’r cyfnod hwn hefyd wedi darparu’r llwyfan i rannu negeseuon am yr effaith y mae tanau’n ei chael ar yr amgylchedd ac wedi hwyluso cyfleoedd cyfryngau i ddarlledwyr sydd wedi helpu i rannu negeseuon addasu a lliniaru allweddol.

47. Tynnwyd sylw at effeithiau newid hinsawdd ar ddyfrffyrdd gan y prinder dŵr yng Nghamlas Aberhonddu a Sir Fynwy. Rydym wedi delio â nifer o ymholiadau gan y cyfryngau ynghylch ein rôl yn y broses hon, gan sicrhau bod y cyfryngau’n deall ein rôl reoleiddio a bod hyn yn cael ei gyfleu’n gywir mewn adroddiadau.

48. Fe wnaethon ni gydweithio’n agos â Llywodraeth Cymru i hwyluso ymweliad y Dirprwy Brif Weinidog â Chynllun Rheoli Perygl Llifogydd Stryd Stephenson, i gefnogi ei gyhoeddiad am ei raglen gyfalaf ar gyfer perygl llifogydd.

49. Fel rhan o’r dull materion allanol a chyfathrebu ar gyfer pob un o’n hamcanion llesiant corfforaethol, fe wnaethom ymuno â Diwydiant Sero Net Cymru, gyda Chyfarwyddwr Gweithredol Cyfathrebu, Cwsmeriaid a Masnachol Sarah Jennings wedi’i gwahodd fel siaradwr gwadd yn eu cyfres podlediadau yn canolbwyntio ar sut y gallwch weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflawni sero net. Siaradodd Sarah am sut mae CNC eisiau bod yn rheoleiddiwr galluogi a chefnogi’r agendâu

datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy, wrth fod yn llais i natur ac annog ceisiadau o ansawdd uchel sy'n cynnwys budd i natur yn eu cynlluniau. Mae'r podlediad hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar y gynulleidfa fusnes ledled Cymru.

**Llygredd yn cael ei atal hyd yr eithaf**

50. Yn ystod y cyfnod hwn, cyhoeddwyd asesiadau afonydd ACA a dosbarthiadau'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Roedd hyn yn gofyn am drin a choreograffi gofalus gyda rhanddeiliaid a'r cyfryngau. Fe wnaethon ni gyflwyno sesiwn friffio i'r cyfryngau a newyddiadurwyr ochr yn ochr â chydweithwyr arbenigol er mwyn sicrhau cyd-destun a dealltwriaeth o'r data a ryddhawyd, a'r gwaith sydd wedi bod yn mynd rhagddo i gyflawni newid yn ein hafonydd ers y datganiad data diwethaf.

51. Fel rhan o'r cyhoeddiad hwn, fe wnaethom weithio ochr yn ochr â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru i drefnu a hyrwyddo ymweliad y Dirprwy Brif Weinidog i rannau uchaf afon Gwy, er mwyn iddo weld sut rydym yn gweithio gyda chymunedau a thirfeddianwyr i adfer cynefinoedd a gwella ansawdd dŵr yn y dalgylch hwn.

**Mae natur yn gwella**

52. Tynnwyd sylw at fanteision gweithio mewn partneriaeth â chymunedau er mwyn cyflawni canlyniadau i bobl a natur drwy ein hyrwyddiad o gyhoeddiad derbynwyr y rownd ddiweddaraf o arian gan y Gronfa Rhwydweithiau Natur, ein prosiectau LIFE, a chwblhau prosiectau adfer afonydd. Fe wnaethon ni hefyd arddangos canlyniadau ein gwaith gyda Choed Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yng Nghymru, gwirfoddolwyr, tirfeddianwyr ac awdurdodau lleol, a phlannu mwy na 24,000 o goed ar hyd glannau pedair afon yn Ne Cymru fel rhan o raglen 4 Afon LIFE.

53. Denodd ein stori yn dangos y gwaith torri coed gyda cheffylau yng Nghoedwig Dyfi gryn dipyn o ymgysylltiad ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol o bob cwr o'r byd. Fe wnaethon ni hefyd hyrwyddo pump ar hugain mlynedd o Wlyptiroedd Casnewydd a'n gwaith partneriaeth â Lefelau Byw. Rhoddodd y straeon hyn gyfle i arddangos yr ystod o brosiectau sy'n helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur ac adeiladu swmp o astudiaethau achos a all lywio ein hymgyrchoedd yn y dyfodol.

54. Fe wnaethon ni hefyd dynnu sylw at ein hymdrechion i amddiffyn rhywogaethau mewn safleoedd gwarchodedig. Roedd ein penderfyniad i weithredu parth gwaharddedig mewn safle gwarchodedig ar Ynys Môn er mwyn amddiffyn rhywogaethau prin o adar yn gofyn am driniaeth sensitif gyda rhanddeiliaid ac fe ddenodd ddiddordeb eang yn y cyfryngau. Rhannwyd hefyd esblygiad ein prosiect i fynd i'r afael â'r llyfrothen uwchsafn oresgynnol ar draws cyrff dŵr yn Sir Gaerfyrddin yn ystod y cyfnod hwn, ac amlygwyd sut rydym wedi defnyddio tystiolaeth i lywio ein prosesau gwneud penderfyniadau yn y prosiect hwn.

55. Amlygwyd effeithiolrwydd ein gwaith gorfodi drwy ddod â chanlyniadau tri erlyniad cwympo coed ar draws Canol De Cymru ynghyd mewn un ymdrech gyfathrebu.

Drwy gyfuno’r straeon, rhoddodd fwy o bwyslais ar y canlyniadau a denodd fwy o sylw yn y cyfryngau o ganlyniad.

**Crynodeb o Gwynion, Canmoliaeth a Gohebiaeth**

56. Mae cyfran sylweddol o'r gwaith ar draws y tri maes – Gohebiaeth, Cwynion a Rhyddid Gwybodaeth – wedi canolbwyntio ar ddau faes proffil uchel sy'n gofyn am lawer o adnoddau: y grŵp Achub Ynyslas a phrosiect Glanhau Afon Ogwr. Mae'r ddau bwnc wedi arwain at lawer iawn o ohebiaeth ac mae ein hymagwedd wedi gofyn am gydweithio agos rhwng nifer o dimau mewnol.

57. Mae Achub Ynyslas yn parhau i ddenu diddordeb y cyhoedd a'r cyfryngau. Ers mis Ionawr, rydym wedi derbyn naw cais Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol (EIR) sy'n ymwneud yn benodol â'r mater hwn, gan gwmpasu ystod o ddogfennau megis disgrifiadau rôl staff canolfannau ymwelwyr, asesiadau risg, rheoliadau safle, adroddiadau ariannol, cofnodion cyfarfodydd y Tîm Gweithredol a phapurau opsiynau. Ochr yn ochr â'r ceisiadau hyn, rydym hefyd wedi derbyn llawer iawn o ohebiaeth wleidyddol trwy wahanol sianeli.

58. Cynhaliwyd cyfarfod gydag ymgyrchwyr ar y safle ym mis Mai mewn ymdrech i roi eglurder a lleihau pryderon. Fodd bynnag, mae datganiad i'r wasg a gyhoeddwyd wedi hynny gan y grŵp ymgyrchu yn priodoli'r cyfrifoldeb llwyr am y penderfyniad i gau canolfan ymwelwyr Ynyslas i un aelod o'r tîm uwch - sy’n anghywir - ac yn camliwio natur y drafodaeth. Mae'r datganiad hwn a rhai eraill yn y cyhoeddiad yn gamarweiniol ac rydym yn ystyried y ffordd orau o ymateb i sicrhau cofnod cyhoeddus cywir.

59. Yn yr un modd, mae prosiect Glanhau Afon Ogwr wedi cynhyrchu chwe chais EIR, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar ansawdd dŵr yn afon Ogwr, amrywiol brosesau profi a samplu, a digwyddiadau a adroddwyd ar y safle. Mae'r ceisiadau hyn wedi cyfrannu at y trafodaethau parhaus a'r angen am gyfathrebu clir ynghylch ein hymdrechion amgylcheddol.

60. Trydydd maes ffocws parhaus fu Safle Tirlenwi Hafod. Er ein bod yn parhau i dderbyn cwynion am arogleuon ac ymholiadau am ein gwaith rheoleiddio ar y safle – ac mae rhai o’r rhain wedi gofyn am ymatebion manwl am systemau monitro, cynlluniau gweithredu ac asesiadau effaith cymunedol – rydym wedi gweld dirywiad yn nifer yr adroddiadau ar arogleuon wrth i’r gweithredwr, Enovert, wneud cynnydd gyda gwaith ar y safle. Rydym wedi cadw gwefan Citizen Space yn gyfredol fel ffynhonnell wybodaeth i drigolion lleol.

61. Llongyfarchiadau mawr i dri o'n cydweithwyr a dderbyniodd Gymeradwyaeth Comander Gorsaf gan yr Awyrlu Brenhinol am eu hymateb cyflym a chydlynol i risg diogelwch awyr ddifrifol yn RAF Mona ar Ynys Môn. Fe wnaeth eu gwaith – sef nodi problem mewn gwaith biomas cyfagos, cydlynu cyngor a sicrhau camau gweithredu cyflym – helpu i atal digwyddiad difrifol posibl. Fe'u gwahoddwyd i RAF

y Fali i ddiolch iddynt yn bersonol, i gael medalau a hyd yn oed i roi cynnig ar yr efelychydd hedfan.

## Rhagolwg

- Dydd Mawrth 3 Mehefin – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Dydd Mercher 18 Mehefin – Pwyllgor Pobl a Chwsmeriaid
- Dydd Iau 19 Mehefin – Pwyllgor Cyllid
- Dydd Mercher 25 Mehefin – Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd
- Dydd Iau 3 Gorffennaf – Pwyllgor Ardaloedd Gwarchodedig
- Dydd Mercher 9 Gorffennaf – Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Dydd Mercher 16 Gorffennaf – Cyfarfod y bwrdd ym mis Gorffennaf
- Dydd Llun 21 i ddydd Iau 24 Gorffennaf – Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru

# Papur Bwrdd CNC

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 22 Mai 2025 |
| **Teitl y papur:** | Diweddariad i'r Bwrdd gan y Pwyllgor Cyllid |
| **Cyfeirnod y papur:** | 25-05-B10 |
| **Noddwyd y papur gan:** | Helen Pittaway, Aelod o'r Bwrdd |
| **Paratowyd y papur gan:** | Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Helen Pittaway, Aelod o'r Bwrdd |
| **Diben y papur:** | Er gwybodaeth |
| **Crynodeb:** | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd ar y Pwyllgor Cyllid – 1 Mai 2025 |

# Cefndir

Mae'r papur hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd yn dilyn cyfarfod byr o'r Pwyllgor Cyllid ar 1 Mai 2025. Gall cofnodion y cyfarfodydd hyn fod ar gael i unrhyw aelod o'r Bwrdd sydd â diddordeb.

<u>Diweddariad ar y perfformiad ariannol</u>

1. Cyflwynwyd y prif negeseuon o'r adroddiad diwedd blwyddyn ar y perfformiad ariannol, gan gynnwys y tanwariant net o £0.5 miliwn, a'r prif resymau dros yr amrywiadau mewn incwm a gwariant. Darparwyd diweddariadau i'r risgiau hefyd, gan gynnwys bod y targed ar gyfer arbedion cyflog ar gyfer y flwyddyn wedi'i gyrraedd.

2. Roedd y Pwyllgor Cyllid yn fodlon ar y tanwariant bach yng nghyd-destun blwyddyn anodd ac, yn dilyn ymholiad, esboniwyd y sefyllfa ariannol ar gyfer y rhaglenni LIFE a grantiau. Cafodd y gwersi a ddysgwyd ar duedd optimistiaeth o ran rheoli cyllidebau eu croesawu hefyd, a gofynnodd y pwyllgor am gyflwyno'r canlyniadau i'r Pwyllgor Cyllid.

<u>Diweddariad ar y gyllideb a chynllunio busnes ar gyfer 2025-26</u>

3. Cyflwynwyd diweddariad ar y gyllideb ar gyfer 2025-26, gan gynnwys yr amrywiadau bach yn y cyllidebau, ar ôl eu cymeradwyo yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mawrth. Roedd cyllidebau nad ydynt yn rhai staff wedi'u cyhoeddi ym mis Ebrill.

4. Mewn ymateb pellach i ymholiad, cadarnhawyd na fyddai gohirio cyllidebau staff yn oedi nac yn rhwystro gallu’r sefydliad i fwrw ymlaen â phenderfyniadau ynghylch recriwtio.

5. Amlinellwyd y gwaith ar gynllun busnes 2025-26, gan gynnwys y prif gyflawniadau a’r dull.

6. Cefnogodd y pwyllgor y dull, a thrafododd yr angen i ymgorffori blaenoriaethau’r Dirprwy Brif Weinidog â metrigau gweithgarwch ‘busnes fel arfer’ wrth adrodd. Rhoddwyd sicrwydd ar y mater hwn.

Cymeradwyaethau ariannol

7. Ailgymeradwyodd y Pwyllgor Cyllid y costau ar gyfer y prosiect gosod telemetreg newydd gan y bu cynnydd bach yn y costau.

# Papur Bwrdd CNC

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 22 Mai 2025 |
| **Teitl y papur:** | Adroddiad y Bwrdd Rheoli Perygl Llifogydd |
| **Cyfeirnod y papur:** | 25-05-B11 |
| **Noddwyd y papur gan:** | Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd |
| **Paratowyd y papur gan:** | Ysgrifenyddiaeth y Bwrdd |
| **Cyflwynwyd y papur gan:** | Peter Fox, Cadeirydd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd |
| **Diben y papur:** | Gwybodaeth – cynorthwyo'r Cadeirydd gyda'i ddiweddariad llafar |
| **Crynodeb:** | Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfod y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd ar 17 Ebrill 2025 |

## Cefndir

1. Mae'r crynodeb hwn yn rhoi gwybodaeth i gynorthwyo'r Cadeirydd gyda'i ddiweddariad llafar ar faterion y dylai, yn ei farn yntau, gael eu dwyn i sylw'r Bwrdd cyfan yn dilyn cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd, a gynhaliwyd ar 17 Ebrill 2025.

## Diweddariad

<u>Adroddiad diweddaru ar reoli perygl llifogydd</u>

2. Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am ymchwiliad Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Seilwaith y Senedd i'r effaith a gafodd Storm Bert a Storm Darragh, a chyhoeddiad Llywodraeth Cymru ynghylch gweithredu Nodyn Cyngor Technegol 15 ar ei newydd wedd. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi cadarnhau y byddai'n cyhoeddi'n fuan yr ymateb i adroddiad Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2024. Roedd y Dirprwy Brif Weinidog hefyd wedi cyfarfod ag aelodau'r Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol i drafod y bwlch cydnabyddedig mewn sgiliau ar draws y sector llifogydd. Roedd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) hefyd wedi sefydlu tasglu gwydnwch rhag llifogydd ar gyfer Lloegr, ac roedd cynrychiolwyr o'r gweinyddiaethau datganoledig wedi cael eu

gwahodd iddo. Byddai'r tîm llifogydd yn cydweithio'n agos â Llywodraeth Cymru ar unrhyw oblygiadau y byddai'n dod yn sgil y grŵp hwnnw ar gyfer Cymru.

3. Croesawodd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Nodyn Cyngor Technegol 15 ac, yn dilyn ymholiad, esboniwyd term canlyniadau llifogydd strategol. Trafododd y pwyllgor hefyd y rhesymau dros y bwlch mewn sgiliau, a'r gwaith y gofynnwyd amdano gan y Dirprwy Brif Weinidog i lunio argymhellion i liniaru'r broblem.

Diweddariad ar Raglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd

4. Amlinellwyd sefyllfa ariannol derfynol debygol Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd 2024-25, gan gynnwys y rhesymau dros y tanwariant. Darparwyd diweddariadau ar brosiectau unigol, gan gynnwys Sandycroft, a oedd wedi cael adborth cadarnhaol gan y cyhoedd, a bod 2,000 o eiddo wedi'u diogelu gan raglen 2024-25. Roedd y pwyllgor yn fodlon ar y tanwariant, mewn blwyddyn ariannol anodd, a diolchodd i bawb a oedd yn rhan o'r rhaglen.

5. Darparwyd trosolwg o Raglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd 2025-26, gan gynnwys y gyllideb a'r prif risgiau. Rhoddwyd sicrwydd bod y rhaglen wedi'i datblygu wrth gadw capasiti y timau mewn cof, gyda hyblygrwydd i reoli'r rhaglen yn ystod y flwyddyn. Darparwyd yr wybodaeth ddiweddaraf am Stryd Stephenson, Casnewydd, a phrosiectau sefydlu system rhybuddion llifogydd newydd a gosod telemetreg newydd.

6. Croesawyd y nifer fawr o opsiynau a'r hyblygrwydd yn y rhaglen. Fodd bynnag, roedd rhwystredigaeth ynghylch y problemau gyda chaffael cerbydau a pheiriannau fflyd. Ar gais y pwyllgor, byddai papur yn cael ei gyflwyno i Grŵp Busnes Rheoli Perygl Llifogydd a'r Tîm Gweithredol ar y mater. Codwyd pryderon hefyd ynghylch yr oedi a fu mewn perthynas â un o ffrydiau gwaith y prosiect telemetreg. Hefyd, rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am ddigwyddiad yng Nghronfa Ddŵr Peterstone Gout a Phrosiect Ynys-y-bwl.

Achos Amlinellol Strategol yn Ninbych-y-pysgod (afon Ritec)

7. Rhoddwyd cyd-destun yr Achos Amlinellol Strategol, ynghyd â thri opsiwn posibl. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r Achos Amlinellol Strategol yn Ninbych-y-pysgod yn cael ei ddatblygu'n briodol, ac na fyddai buddsoddiad preifat yn dylanwadu ar y prosiect na'i drefn flaenoriaeth.

8. Holodd y pwyllgor sut y byddai gwlyptiroedd newydd, o'u cymharu ag ailwylltio naturiol, yn cael eu gwerthfawrogi, ac awgrymodd y dylid adolygu costau yn y dyfodol. Yn dilyn ymholiad pellach, esboniwyd y cyfleoedd sy'n seiliedig ar natur yn opsiwn tri, ac awgrymwyd cynnwys arfarniad o'r gwasanaethau ecosystemau. Cymeradwyodd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Achos Busnes Amlinellol.

Cofrestr Risgiau Cymunedol a blaenoriaethu Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd

9. Rhoddwyd cyflwyniad ar sut y defnyddiwyd y Cofrestr Risgiau Cymunedol i ddylanwadu ar flaenoriaethu Rhaglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd, ynghyd â ffactorau eraill a gynhwyswyd yn y meini prawf ar gyfer blaenoriaethu.

10. Awgrymodd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd y dylid ystyried manteision cynlluniau yn y dyfodol, ynghyd â'r risgiau yn y dyfodol, er mwyn rhoi dull integredig ar waith. Awgrymwyd hefyd y dylid ystyried dulliau eraill o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ochr yn ochr â rheoli llifogydd.

11. Trafododd y pwyllgor i ba raddau yr oedd ansicrwydd yn y prosesau llifogydd a’r modelu wedi effeithio ar raddio lefelau risg, sensitifrwydd y cyfrifiadau, a lefel y manylder yn y dadansoddiad o’r data. Trafodwyd hefyd reoli dalgylchoedd a’r cymorth y mae CNC yn ei roi i bobl a chymunedau. Gofynnodd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd am archwiliad o’r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl, er mwyn rhoi syniad cyffredinol o’r pecyn o wasanaethau a chymorth ar gyfer perygl llifogydd a ddarperir gan CNC.

Magu parodrwydd cymunedau i ymdopi â llifogydd – problemau a chyfleoedd

12. Eglurwyd hanes ymgysylltu â’r gymuned ynghylch llifogydd yng Nghymru, a sut yr oedd wedi arwain at ddatblygu Cynlluniau Llifogydd Cymunedol, ynghyd â rôl CNC wrth eu cefnogi. Tynnwyd sylw at yr adolygiad o ymgysylltu â’r gymuned ynghylch llifogydd, yn ogystal â’r heriau o ran ymgysylltu â chymunedau mewn gweithgareddau gwrthsefyll llifogydd.

13. Trafododd y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd y graddau y mae ffactorau economaidd-gymdeithasol yn pennu ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd, yn ogystal ag effeithiau newid hinsawdd ar reoli perygl llifogydd. Roedd ymdrechion i ymgysylltu â’r gymuned wedi’u cyfyngu gan yr adnoddau oedd ar gael. Esboniwyd, fel rôl alluogi, nad oedd blaenoriaethu, a bod gan bawb hawl i’r un lefel o gymorth, ac yn ei derbyn. Amlinellwyd gweithgarwch ymgysylltu CNC â’r cyhoedd drwy’r wefan a chyfryngau cymdeithasol, a chytunwyd mai’r ffordd orau ymlaen fyddai barhau i ymgysylltu drwy rwydweithio â gwirfoddolwyr.

Eitemau er gwybodaeth yn unig

14. Rhannwyd y cynllun gwaith ar gyfer archwilio mewnol ar gyfer y flwyddyn nesaf, a’r adroddiad archwilio mewnol diweddar ar Raglen Gyfalaf Rheoli Perygl Llifogydd, â'r pwyllgor er gwybodaeth yn unig.

Rhagolwg

15. Bwriedir cynnal cyfarfod ar y cyd arall rhwng y Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd a’r Pwyllgor Ystadau Tir ym mis Hydref.

# Papur Bwrdd CNC

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 22 Mai 2025 |
| **Teitl y papur:** | Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru |
| **Cyfeirnod y papur:** | 25-05-B12 |
